



Inc Naturiol

- Ffurio llythrennau
- Technegau celf



Trosolwg

Bydd y gweithgaredd yma'n archwilio sut defnyddiwyd cynhwysion naturiol yn draddodiadol i greu inc drwy hanes ac yn rhoi cyfle i blant arbrofi gyda gwahanol ddulliau o wneud marciau.

Adnoddau

- Cyrrains duon
- Jariau
- Mes
- Rhisgl
- Cyrs/coesyntau gwag/plu ar gyfer brwshys naturiol

Gweithgaredd

1. Arbrofwch gyda'r tri dull isod i greu inciau naturiol gwahanol.
 - Ychwanegwch 10 mesen a darnau bach o risgl at jar jam. Gorchuddiwch y cyfan gyda dŵr a'i adael am ychydig ddyddiau.
 - Prynwch neu chwilio am gyrrains duon a'u coginio mewn dŵr dros dân agored. Ewch ati i leihau'r hylif i wneud inc porffor.
 - Malwch ½ cwpan o aeron drwy ridyll i mewn i bowlen. Ychwanegwch 1 llwy de o halen ac 1 llwy de o finegr. Bydd y finegr yn rhwymo'r pigment a bydd yr halen yn cadw'r inc.
2. Gadewch i'r plant archwilio gan ddefnyddio'r inc i wneud marciau ar y ddaear neu ddalennau mawr o bapur/ffabrig.

Canlyniadau a Awgrymir ar gyfer Dysgu a Chwarae

Rydyn ni'n deall y byddwch chi, fel addysgwyr, yn teilwra'r gweithgaredd yma i anghenion dysgu eich myfyrwyr. Dyma rai o'r canlyniadau dysgu y mae ymarferyddion eraill wedi defnyddio'r gweithgaredd yma ar gyfer eu cyrraedd.

- Defnyddio teclynnau a deunyddiau gwahanol i wneud marciau
- Archwilio'r canlyniad pan fydd cynhwysion yn cael eu cymysgu gyda'i gilydd

Isod, rydyn ni wedi defnyddio syniadau y mae addysgwyr eraill wedi'u defnyddio gyda'r gweithgaredd yma i bontio'r bwlch rhwng y tu mewn a'r awyr agored ar gyfer eu myfyrwyr.

Maes Pwnc	Testun	Syniadau ar gyfer Archwilio Pellach
Llythrennedd ac iaith	Ffurio llythrennau	Defnyddio inc i ysgrifennu llythrennau neu enwau
Gwyddoniaeth	Cyflwr mater	Siarad am yr hyn sy'n digwydd wrth i gynhwysion yr inc gael eu cymysgu
Celf	Defnyddio teclynnau i wneud marciau	Defnyddio brigau, plu neu gyrs i greu brwshys i ddefnyddio'r inciau gyda nhw
Hanes	Gwareiddiad y gorffennol	Cysylltu â dulliau ysgrifennu traddodiadol ac egluro newidiadau dros hanes e.e. paentio ogofâu, cwilsyn ac inc ac ati.
Mathemateg	Siâp/rhif	Cyfrif a mesur y cynhwysion Defnyddio'r inc i greu siapiau neu rifau penodol



Os hoffech chi ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau dysgu awyr agored, edrychwch ar ein hamrywiaeth ni o gyrсияu hyfforddi: ltl.org.uk/outdoor-learning-training